**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP/ARD/7510/16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

12 Rhagfyr 2016

Dear Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Tachwedd yn gofyn am eglurhad ychwanegol ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru (CWVYS).

Fel y gŵyr y pwyllgor, rwyf wedi ailystyried fy null o bontio i ddull newydd o sicrhau cynrychiolaeth a chymorth ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol ac rwyf wedi cyfleu'r newid hwn i CWVYS.

Fel y gwelwyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'ch ymchwiliad, mae anfodlonrwydd mawr o fewn y sector. Yr hyn sy'n glir hefyd yw nad oes consensws clir ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen.

Mae trafodaeth reolaidd a pharhaus wedi bod, ac yn parhau i fod, yn un o nodweddion ein perthynas â CWVYS, y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid a rhanddeiliaid a grwpiau cynrychioliadol eraill. Rwyf wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr Grŵp y Prif Swyddogion Gwaith Ieuenctid ac wedi cyfarfod fel y cynlluniwyd gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid ar 8 Rhagfyr. Roedd y Grŵp Cyfeirio yn gallu cynnig nifer o awgrymiadau adeiladol a chadarnhaol ar gyfer gweithio yn y dyfodol ac rwyf wedi gofyn i swyddogion fwrw ymlaen â'r rheini. Yn benodol edrychaf ymlaen at ffocws newydd y grŵp yn y flwyddyn newydd ar gydweithio gyda ni i adfywio ac adnewyddu Ymestyn Hawliau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol (2014-18) yn nodi y dylai cymorth i'r sector gwirfoddol ehangach gael ei adolygu yn ystod oes y strategaeth. Yr ystyriaeth hon o'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ein hamcanion yw'r un yr wyf wedi bod yn ymwneud â hi; mae hon yn ystyriaeth wahanol ac ar wahân i'r angen am gorff neu fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n fater sy'n dal i gael ei drafod gyda'r sector.

Ym mis Ionawr 2016 comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol y Drindod Dewi Sant i ymchwilio i'r trefniadau mwyaf priodol ar gyfer cefnogi'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol y tu hwnt i 2016. Amlygodd ei hadroddiad lawer o faterion sy'n cyd-daro â'r rhai a godwyd mewn tystiolaeth i'r pwyllgor. Er enghraifft, nododd sefydliadau cenedlaethol a lleol bod ganddynt ffyrdd gwahanol o weithio a bod angen ffyrdd gwahanol o ddarparu cymorth. Nododd yr adroddiad nifer o fylchau, gan gynnwys diffyg cysondeb yn y gefnogaeth i'r sector gwirfoddol ledled Cymru a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith mudiadau gwirfoddol lleol am ble a sut mae polisi gwaith ieuenctid yn cael ei ddatblygu. Argymhellodd yr adroddiad, ymhlith pethau eraill, sefydlu grant i gefnogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol i rannu arferion da mewn gwaith ieuenctid, i weithio fel dolen gyswllt rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol ac i ddarparu cymorth hanfodol.

Yn ehangach, byddwn hefyd yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer modelau darparu gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Bydd CWVYS, fel cyfranogwyr y Grŵp Cyfeirio, yn gallu chwarae rhan lawn yn y trafodaethau hyn ac unrhyw argymhellion y gall y grŵp eu cyflwyno i mi yn dilyn y trafodaethau hynny.

Mae'n amlwg bod llawer i'w wneud ond hefyd bod awydd i gydweithio i ddatblygu gweledigaeth gydlynol ar gyfer y dyfodol a strwythur sy'n addas at y diben. Bydd angen y lle a'r adnoddau ar unrhyw fodel newydd o ddarpariaeth a chefnogaeth i'w alluogi i weithredu'n effeithiol, ac yn yr hinsawdd bresennol mae hynny'n golygu gwneud pethau'n wahanol er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol. Rwy'n bwriadu gwneud datganiad ar yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn a'r cyfeiriad cyffredinol yn y gwanwyn.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language